

Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg
a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

# Strategaeth Comisiynu ar y Cyd Ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu

## 2019-2024

*"Hyrwyddo Annibyniaeth
a Gwella Bywydau"*

CARDIFF CAERDYDD

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu i greu'r Strategaeth Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu gyntaf i'r bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Heb waith caled a chymorth pawb ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl.

Diolchwn yn arbennig i grwpiau Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Phobl yn Gyntaf y Fro, ein partneriaid o'r Trydydd Sector, y Bwrdd Partneriaeth Anableddau Dysgu, Cyngor Trydydd Sector Caerdydd, Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a Phartneriaeth Integredig ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a'r Fro.

# Rhagair

**Rydym yn falch o gyflwyno ein strategaeth comisiynu iechyd a gofal cymdeithasol gyntaf ar y cyd ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu.**

Mae'r strategaeth yn dangos ein hymrwymiad i wrando ar bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd a gofalwyr, er mwyn deall beth sy'n bwysig iddynt, ac i roi gwasanaethau cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ar waith a fydd yn cyflawni'r canlyniadau mae pobl am eu gweld.


Fel sefydliadau partner sy'n gweithio gyda'n gilydd, rydym ni wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau a fydd yn cynnig i bobl ag anableddau dysgu y dewis a'r rheolaeth a fydd yn eu cefnogi i fyw eu bywydau yn y ffordd y maent yn dymuno.  Byddwn yn parhau i ddatblygu ein gwasanaethau, gan ganolbwyntio ar gryfderau'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw, a'r gwasanaethau sy'n cefnogi pobl i gysylltu â'u cymunedau. Drwy "hybu annibyniaeth a gwella bywydau" byddwn yn cefnogi pobl i fyw'r bywydau o'u dewis, gyda mynediad at iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uchel a hyblyg, a chyda chymorth pan fydd ei angen arnynt.

Drwy wrando ar bobl ag anableddau dysgu, a'u teuluoedd a gofalwyr, rydym yn gwybod bod angen inni weithio gyda gwasanaethau eraill megis tai, addysg a'r trydydd sector, er mwyn datblygu gwasanaethau sy'n cynnig ymyriad cynnar, yn atal argyfyngau ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Bydd Cyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r weledigaeth hon a nodir yn ein Strategaeth Comisiynu drwy ddatblygu a chynnig gwasanaethau ar y cyd a manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a rennir. Byddwn yn gwneud hyn mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu gan mai nhw yw'r arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain.

*"Hyrwyddo Annibyniaeth a Gwella Bywydau"*






Y Cynghorydd Susan Elsmore
*Aelod Cabinet Cyngor Caerdydd dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiantng*





Y Cynghorydd Ben Gray
*Aelod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Hamdden*





Maria Battle
*Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro*

# Cyflwyniad

## Strategaeth Comisiynu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyd ar gyfer Oedolion ag Anableddau Dysgu yng Nghaerdydd a'r Fro

Mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn falch o gyflwyno ein strategaeth gomisiynu integredig gyntaf erioed ar gyfer gwasanaethau oedolion ag anableddau dysgu i'r bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Rydym ni wedi gweithio gyda phobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd, gofalwyr a'r trydydd sector a'r sector annibynnol i sicrhau cyfeiriad clir ar gyfer cynllunio a chyflawni gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth hon yn disgrifio ein gweledigaeth ar y cyd, yr egwyddorion craidd sydd yn hanfodol yn ein barn i ddylunio a darparu gwasanaeth, ynghyd â'r prif broblemau y dylid mynd i'r afael â nhw yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaeth sy'n effeithiol, diogel ac o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod capasiti digonol ac ystod addas o ddarpariaeth i ddiwallu'r anghenion lleol.

## Diben – Pam cael Strategaeth?

Diben ein strategaeth yw disgrifio sut bydd Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i anghenion a dyheadau ein hoedolion ag anableddau dysgu mewn cyd-destun deddfwriaethol a chanllawiau cenedlaethol, cynlluniau lleol ehangach a'r adnoddau sydd ar gael. Ar lefel leol, bydd ein strategaeth leol yn llywio'r gwasanaethau y bydd y tri sefydliad ar y cyd neu ar wahân yn eu comisiynu dros y pum mlynedd nesaf.

## Ein Gweledigaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro - Hyrwyddo Annibyniaeth a Gwella Bywydau

Ein gweledigaeth ni yw sicrhau ansawdd bywyd da i bobl ag anableddau dysgu a'u cefnogi i fyw yn y ffordd y maent yn dymuno; gan fyw yn lleol lle maent yn 'teimlo'n dda ac yn iach', lle maent yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau ac mae mynediad cyfartal at gymorth priodol ar gael iddynt sy'n sicrhau annibyniaeth, dewis a rheolaeth.

## Nod – Beth ydyn ni eisiau i'n Strategaeth ei wneud?

Ein nod yw creu ac ehangu ar sail ein llwyddiannau blaenorol a pharhau i drawsnewid gwasanaethau sy'n gwella iechyd a lles oedolion gydag anableddau dysgu a'u gofalwyr.

Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro wedi mabwysiadu pedair egwyddor comisiynu:

Mae'r pedair egwyddor comisiynu hyn yn ganolog i'n gweledigaeth a'n nodau a byddant yn llywio'r cynllun gweithredu er mwyn cyflawni ein strategaeth.

**Defnydd cynaliadwy a darbodus o adnoddau**

Hyrwyddo dulliau atal ac ymyrryd yn gynnar a datblygu canlyniadau ansawdd a datrysiadau gwerth am arian sy'n diwallu anghenion gofal a chymorth.

**Yr hyn sy'n bwysig i fi**

Gwrando ar bobl sydd angen gofal a chymorth a gweithio gyda nhw ar y cyd i ddod o hyd i ddatrysiadau i ddiwallu eu hanghenion.

**Osgoi niwed, gwastraff ac amrywiad**

Sicrhau gofal o ansawdd uchel ar draws yr holl wasanaethau.

**Gartref yn gyntaf**

Galluogi pobl i fyw mor agos i'w cartref â phosibl mewn llety sy'n briodol i'w hanghenion a lle y gallant fyw yn dda, ffynnu ac aros yn annibynnol.

1

# Cyd-destun Cymru - Y Gyfraith

Y ddau ddarn deddfwriaeth pwysicaf sy'n cael eu cynnwys yn y strategaeth hon yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r ddeddf yn pennu dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt hyrwyddo llesiant y bobl hynny sydd angen gofal a chymorth, neu'r gofalwyr sydd angen cefnogaeth.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn rhoi'r prif ddyletswyddau i sicrhau:

- Bod gan bobl reolaeth dros y cymorth sydd ei angen arnynt, eu bod yn gwneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth fel partner cyfartal
- Asesiadau newydd cymesur sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Mae gan ofalwyr yr un hawl i gael asesiad ar gyfer cefnogaeth â'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt
- Mynediad rhwydd at wybodaeth a chyngor sydd ar gael i bawb
- Pwerau cryfach i ddiogelu pobl
- Ymarfer dull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth
- Mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod ynghyd mewn partneriaethau statudol newydd er mwyn datblygu prosesau integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau

**Egwyddorion y Ddeddf yw:**

- Cefnogi pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth er mwyn byw mewn ffordd lesol iddyn nhw
- Y bobl sydd wrth wraidd y system newydd gan y rhoddir iddynt yr un hawl i gyfrannu at y cymorth sydd ei angen arnynt
- Mae partneriaeth a gweithio ar y cyd yn ysgogi'r gwasanaeth a ddarperir
- Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo dull ataliol ynghylch yr angen cynyddol a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr amser iawn

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus (gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol) i sicrhau wrth wneud eu penderfyniadau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

**Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol iddynt:**

- weithio'n well gyda'i gilydd
- cynnwys pobl gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau
- meddwl am y dyfodol yn ogystal â chanolbwyntio ar heddiw
- gweithredu i geisio atal problemau rhag gwaethygu – neu hyd yn oed eu hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf

*Gweler Atodiad 1 ar gyfer rhestr lawn o ddolenni ar gyfer deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau a chynlluniau rhanbarthol wedi eu hadolygu*



# 2 Cyd-destun Caerdydd a'r Fro

Mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'i gilydd yn ffurfiol dan Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Anableddau Dysgu er mwyn goruchwylio ar y cyd ddatblygiad a darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal iechyd integredig, i sicrhau eu bod yn alinio â'r angen lleol.

## Sut rydym ni wedi datblygu'r Strategaeth?


Mae hi wedi bod yn hynod bwysig i ni fod pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rhannu â ni yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r hyn a fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau yn eu barn. Er mwyn casglu'r wybodaeth hon, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu:

- Rhwng mis Chwefror 2016 ac Ionawr 2017 fe wnaethom gynnal Asesiad Anghenion y Boblogaeth â dinasyddion ledled Caerdydd a'r Fro wrth gynnwys barn pobl sydd ag anableddau dysgu.
- Ym mis Chwefror 2018, cynhaliodd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus 23 o gyfweliadau un awr â phobl sy'n gweithio mewn gwahanol wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu ledled Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys staff sy'n gweithio mewn addysg, y GIG, gwasanaethau cymdeithasol, y trydydd sector a grwpiau cymunedol.
- Dadansoddwyd ymatebion pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u teuluoedd/gofalwyr a gyfrannodd i ddau arolwg ar-lein.
- Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgysylltu hygyrch gan Pobl yn Gyntaf y Fro ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.
- Casglodd Pobl yn Gyntaf Caerdydd ynghyd y wybodaeth a gasglwyd gan aelodau ar wella gwasanaethau lleol.
- Rydym ni wedi ystyried yr ymatebion gan unigolion a'u teuluoedd yn dilyn yr adolygiad ar wasanaethau dydd cymhleth ar draws y Cynghorau yng Nghaerdydd a'r Fro.
- Crëwyd e-bost pwrpasol ar gyfer adborth dinasyddion er mwyn iddynt ddweud wrthym yr hyn y maent yn ei feddwl am wasanaethau i bobl ag anghenion cymhleth.
- Ym mis Tachwedd 2018, aethon ni i ddigwyddiad adborth a gynhaliwyd gan y grwpiau Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Phobl yn Gyntaf y Fro, a chyflwynwyd barn pobl ag anableddau dysgu a darparwyr cymorth ar y strategaeth Ddrafft.



# 3 Beth sy'n Bwysig i Bobl ag Anableddau Dysgu a'u Gofalwyr?

O'r wybodaeth a gasglwyd yn yr ymgynghoriadau a'r gweithgareddau a gynhaliwyd gyda phobl ifanc, oedolion ag anableddau dysgu a'u gofalwyr, pennwyd wyth maes blaenoriaeth:



**Iechyd a Theimlo'n Dda:**
Bod yn actif.
Cael hwyl.
Cael bywyd cymdeithasol.

**Gwybodaeth:**
Hygyrch a hawdd ei deall.

**Dewis, Rheolaeth – Ymgynghori a Chynnwys:**
Gwrando ar farn y person a'r hyn sy'n bwysig iddo.
Gwrando ar farn y gofalwr a'r hyn sy'n bwysig iddo.

**Y cymorth iawn ar yr adeg iawn:**
Cymorth cynnar.
Cymorth mewn argyfwng.
Cymorth iechyd arbenigol.
Cymorth seibiant.

**Cyfleoedd gweithio, gwirfoddoli a dydd:**
Canolbwyntio ar y person, hygyrch, cael eich gwerthfawrogi, datblygu sgiliau a bod yn rhan o'r gymuned.

**Cyfnod pontio o blentyndod i fod yn oedolyn:**
Ar y cyd ac wedi ei gynllunio'n dda.

**Bod yn berchennog cartref:**
Cael cefnogaeth i fyw mor annibynnol â phosibl.
Defnyddio technoleg yn well.
Bod yn agos i ffrindiau a theulu.
Cael dewisiadau.

**Cydweithredu a Chyd-gynhyrchu:**
Gweithio gyda'n gilydd yn well.



4

# Anghenion a Galw

## Beth ydyn ni'n ei wybod am bobl ag anableddau dysgu sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg?

Mae nifer fawr o bobl ag anableddau dysgu na fydd angen gwasanaethau gofal cymdeithasol na gwasanaethau iechyd arbenigol arnynt. Fel gweddill y boblogaeth ar sail ddyddiol, bydd pobl ag anableddau dysgu yn dod mewn cysylltiad â gwasanaethau cymunedol cyffredinol. Er mwyn inni allu cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael bywydau iach ac ystyrlon ac atal yr angen am wasanaethau dwysach arbenigol, mae angen i'r gwasanaethau cymunedol cyffredinol fod yn hygyrch a gwneud addasiadau rhesymol i hwyluso hyn. Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae 1,623 o bobl dros 18 oed yn byw gydag anableddau dysgu y mae ein Timau Cymunedol Anableddau Dysgu yn gwybod amdanynt.

Yn ystod y cyfnod Ionawr – Mawrth 2018, gyda chymorth y Sefydliad Gofal Cyhoeddus, fe wnaethon adolygu ein 'sefyllfa bresennol' , o ran anghenion y boblogaeth oedolion ag anableddau dysgu, y gwasanaethau a ddarperir ar y pryd a'r ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol. Yn rhan o hyn, archwiliwyd:

- Ffigurau amcan o faint y boblogaeth o oedolion ag anableddau dysgu yng Nghaerdydd a'r Fro ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Nifer y bobl a gefnogir gan wasanaethau iechyd a chyngor wedi eu comisiynu
- Yr adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaethau yn ymwneud ag anableddau dysgu sy'n cynnwys arian a staff
- Map o ystod y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau a'u lleoliad

**Yn ogystal â'r gweithredoedd uchod, rydym ni wedi:**

- Dadansoddi gwybodaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol
- Dadansoddi adnoddau cyllideb a staff – nawr ac yn y dyfodol
- Dadansoddi gwasanaethau presennol
- Manteisio ar sgiliau a gwybodaeth aelodau'r Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu i'n helpu wrth adolygu cynlluniau

Ar y cyd, mae'r canfyddiadau hyn wedi llywio'r strategaeth hon ac wedi helpu i bennu'r pedair blaenoriaeth allweddol ar dudalen 7.

Gweler Atodiad 1 ar gyfer rhestr lawn o ddolenni ar gyfer deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau a chynlluniau rhanbarthol wedi eu hadolygu



**Ers Mawrth 2017, yng Nghaerdydd:**

- Amcangyfrifir bod 7,081 o bobl 18 oed a hŷn ag anableddau dysgu.
- Cafodd 1,175 o bobl ag anableddau dysgu gymorth gan y Gwasanaethau Anableddau Dysgu. Mae hyn yn 78% o'r bobl gydag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn y ddinas.
- Rhagwelir y bydd nifer y bobl sy'n hysbys i'r gwasanaeth yn cynyddu gan 125 rhwng 2017-2025.
- Mae mwy o ddynion nag o fenywod, (59.7%, 701).
- Mae 17% o boblogaeth Caerdydd o dras nad yw'n wyn (StatsCymru)
- Dywedodd 84.6% 'r bobl ag anableddau dysgu eu bod o dras ethnig Gwyn Prydeinig (943). Yn dilyn hyn, roedd y bobl o dras Gwyn – Cefndir Arall (3.1%, 35) a Phacistani (2.3%, 26) (cofnodion CC ).

**Ers mis Mawrth 2017 ym Mro Morgannwg:**

- Amcangyfrifir bod 2,400 o bobl 18 oed a hŷn ag anableddau dysgu.
- Cafodd 448 o bobl ag anableddau dysgu gymorth gan y Gwasanaethau Anableddau Dysgu.
- Mae hyn yn 90% o'r bobl gydag anabledd dysgu cymedrol neu ddifrifol yn y sir.
- Rhagwelir y bydd y boblogaeth hon yn aros yn sefydlog rhwng 2017 a 2025.
- Mae mwy o ddynion nag o fenywod, (55.4%).
- Mae 2.5% o boblogaeth i sir o dras nad yw'n wyn (StatsCymru).
- Dywedodd 391 (95.8%) o'r rheiny eu bod o dras Gwyn Prydeinig. Yn dilyn hyn oedd y bobl o dras Gwyn – Cefndir Arall (2.7%, 11) a Gwyn – Gwyddelod (0.5%, 2) (Cofnodion BM)

Bydd cynnydd yn nifer y bobl 65 oed a hŷn yn y ddwy sir. Er bod y cynnydd yn 37 yn unig, sy'n cynrychioli dim ond 30% o'r cynnydd cyffredinol yn y niferoedd, gellid disgwyl y bydd angen rhagor o gefnogaeth ar yr unigolion hyn wrth iddynt fynd yn hŷn gan gynnwys gofal cymdeithasol a / neu wasanaethau gofal iechyd arbenigol.

Nododd y cyfrifiad diwethaf, yn 2011, fod mwy na 15% o'r bobl sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg. Ym mis Mawrth 2017, nodwyd yn nata'r Cyngor mai ychydig iawn o oedolion ag anableddau dysgu sy'n siarad Cymraeg, dim ond 13 (1.1%) yng Nghaerdydd. Gallai'r nifer hon gynyddu gydag amser wrth i ragor o blant fynd i Ysgolion Cymraeg.

### Beth ydyn ni'n ei wybod am anghenion rhieni sy'n gofalu am bobl ag anableddau dysgu?

Yn 2017 cyhoeddodd Gofalwyr Cymru 'Adroddiad ar Gyflwr Gofalu' gyda'r nod o gasglu profiadau dyddiol gofalwyr nad ydynt yn gyflogedig yng Nghymru. Mae'r adroddiad wedi ei seilio ar brofiadau 400 o ofalwyr nad ydynt yn gyflogedig ledled Cymru gan nodi bod un allan o bob deg person yng Nghymru yn ofalwyr nad ydynt yn gyflogedig ac mae'n amcangyfrif gwerth y gofal a chymorth a ddarperir ganddynt yn £8.1 biliwn.

Yng nghyfrifiad 2011 Caerdydd a'r Fro nodwyd bod 50,580 o bobl yn eu hystyried eu hunain yn ofalwyr, sef cynnydd o 12% o'i gymharu â'r cyfrifiad blaenorol 10 mlynedd ynghynt. Mae canfyddiadau 'Asesiad Anghenion y Boblogaeth' Caerdydd a Bro Morgannwg a gynhaliwyd yn 2016-17 yn eilio adroddiad Gofalwyr Cymru yn ogystal â'r adborth a gafwyd gan ofalwyr i oedolion ag anableddau dysgu a gynhaliwyd yn rhan o ymarfer ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer y strategaeth hon yn 2017/18. Dywedodd gofalwyr wrthym mai dyma oedd ei angen arnynt:

- Wybodaeth a chyngor sy'n gywir ac amserol
- Cael eu gwerthfawrogi
- Seibiannau
- Cysondeb o ran cymorth
- Cymorth ar adegau argyfwng

**Beth ydyn ni'n ei wybod am anghenion iechyd a llesiant oedolion ag anableddau dysgu?**

Rydym yn gwybod bod mwy o berygl i bobl ag anableddau dysgu o fod ag iechyd a llesiant gwaeth  na'r boblogaeth yn gyffredinol. Rydym hefyd yn gwybod bod pobl ag anableddau dysgu yn cael profiad o anghydraddoldeb wrth geisio defnyddio gwasanaethau iechyd, y ddarpariaeth iechyd sydd ar eu cyfer a'r driniaeth yn y gwasanaeth iechyd prif ffrwd. Mae'r ffaith bod pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hirach a chydag anghenion iechyd mwy cymhleth, yn golygu y bydd y galw ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu yn y dyfodol.

**Dyma'r hyn rydym ni'n ei wybod am oedolion ag anableddau dysgu:**

- Bydd 40% ohonynt yn cael profiad o golli clyw i raddau cymedrol i ddifrifol, ond mae'n llai tebygol y cânt ddiagnosis am eu problemau clyw neu eu rheoli.
- Bydd gan 25-4-% broblemau iechyd meddwl gyda'r perygl efallai na chânt eu hanghenion iechyd meddwl wedi eu hadnabod oherwydd tybiaethau bod y symptomau a'r ymddygiadau wedi eu hachosi gan eu hanableddau dysgu.
- Bydd gan fwy na 20% sy'n 65 oed neu'n hŷn ddementia, o'i gymharu â 6% yn y boblogaeth gyffredinol. Mae Pobl â Syndrom Down sydd mewn perygl arbennig, a gallant ddatblygu dementia yn gynharach, yn 30-40 oed,  na'r boblogaeth gyffredinol gyda chyfraddau o 40% yn 50 oed.
- Bydd gan 15-30% o'r bobl ag anableddau dysgu cymedrol a difrifol epilepsi
- Bydd 10-15% o'r boblogaeth yn arddangos ymddygiadau heriol
- Mae'n debygol y bydd 10% yn ddall neu'n rhannol ddall (10 gwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol)

Er mwyn hyrwyddo iechyd a llesiant oedolion ag anableddau dysgu, mae angen iddynt sicrhau eu bod wedi eu cofrestru gyda'r meddyg teulu lleol fel pobl ag anableddau dysgu er mwyn cael archwiliadau iechyd blynyddol. Bydd hyn yn hybu eu hiechyd a llesiant, ac o bosib atal sefyllfaoedd argyfwng

# 5 Y Ddarpariaeth ar hyn o bryd

### Beth ydyn ni'n ei wybod am bobl ag anableddau dysgu sy'n defnyddio gwasanaethau Gofal Cymdeithasol?

Yn ôl adolygiad ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ag anableddau dysgu Caerdydd a Bro Morgannwg yn ystod 2016/17:

## Caerdydd

- Roedd 62% o oedolion ag anableddau dysgu yn byw gartref gydag aelodau o'u teulu
- Roedd 111 o unedau eiddo llety â chymorth, gyda thair asiantaeth darparu ac roedd y cyngor yn cefnogi 343 o bobl ag anableddau dysgu
- Roedd 84 o oedolion ag anableddau dysgu mewn eiddo preswyl y tu allan i'r sir
- Cafodd 11% o'r oedolion daliadau uniongyrchol
- Rhwng 2018/19 a 2020/21, bydd 19 person ar gyfartaledd yn symud o wasanaethau i blant ag anableddau dysgu i wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu bob blwyddyn

## Y Fro

- Roedd 40% o0 oedolion ag anableddau dysgu, o'r rhai oedd yn hysbys i'r Cyngor, yn byw gartref gydag aelodau o'u teulu
- Roedd 27 o unedau eiddo llety â chymorth, gyda thair asiantaeth darparu yn cefnogi 77 o bobl
- Roedd 38 o oedolion ag anableddau dysgu mewn eiddo preswyl y tu allan i'r sir
- Cafodd 10% o'r oedolion daliadau uniongyrchol
- Rhwng 2018/19 a 2020/21, bydd 9 person ar gyfartaledd yn symud o wasanaethau i blant ag anableddau dysgu i wasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu bob blwyddyn

Darperir gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu'r Cyngor ac i'w teuluoedd/gofalwyr drwy dri Thîm Anableddau Dysgu Cymunedol: Dau dîm i Gaerdydd (Dwyrain a Gorllewin) ac un i Fro Morgannwg. Yn y timau hyn, mae gwahanol bobl broffesiynol yr awdurdod lleol yn cynnig mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth. Mae staff yn gweithio ochr yn ochr â phobl ag anableddau dysgu a'r rheiny sy'n bwysig iddynt i asesu anghenion, cytuno ar ganlyniadau a datblygu cynlluniau gofal. Cynorthwyir pobl i fanteisio ar amrywiaeth eang o gymorth gan gynnwys cyfleusterau cymunedol integredig, gwirfoddoli, cyflogaeth, gofal cartref, cyfleoedd dydd, gofal seibiant, byw â chymorth a gofal preswyl. Bydd staff yr awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda staff iechyd anableddau dysgu i gynnig cymorth amlddisgyblaethol yn ôl y gofyn.


6

## Beth ydyn ni'n ei wybod am bobl ag anableddau dysgu sy'n cael gofal iechyd ar hyn o bryd?

Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae oedolion ag anableddau dysgu yn defnyddio gwasanaethau GIG cyffredinol sydd ar gael i'r boblogaeth yn gyffredinol, ac weithiau gall fod gwasanaethau anableddau dysgu arbenigol y GIG ar gael yn benodol i'w hanghenion.

Mae'r gwasanaethau iechyd cyffredinol yn cynnwys: Gwasanaethau meddyg teulu a gwasanaethau gofal cynradd eraill, gofal iechyd arbenigol cyffredinol, gan gynnwys gofal a thriniaethau mewn ysbyty cyffredinol, a gofal brys.  Dengys adolygiad o'n gwasanaethau GIG cyffredinol yn ystod 2016/17 y canlynol:

**Ym mis Hydref 2017**

- Cafodd 901 o oedolion ag anableddau dysgu archwiliadau iechyd drwy'r meddyg teulu (792 o Gaerdydd a 109 o Fro Morgannwg) Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017 roedd cyfanswm o 1,999 o bobl ar gofrestr oedolion ag anableddau dysgu, mae'n debyg bod hyn yn amcangyfrif rhy isel o nifer yr oedolion ag anableddau dysgu. Hyd yn oed gyda'r ffigwr hwn, dim ond 45.4% gafodd archwiliadau iechyd yn ystod 2016/17, o'r bobl hynny oedd ar y gofrestr.
- Derbyniwyd 81 o oedolion i'r ysbyty (76 o Gaerdydd a 5 o Fro Morgannwg)
- Treuliwyd cyfanswm o 1,396 o ddiwrnodau yn yr ysbyty (39% mewn gwasanaethau llawdriniaeth, 30% mewn gwasanaethau arbenigol a 29% o wasanaethau meddyginiaethau)
- Cynhaliwyd cyfanswm o 776 o apwyntiadau â chleifion allanol (769 o drigolion Caerdydd a 7 unigolyn o Fro Morgannwg)
- Bu 214 o ymweliadau ag adrannau damweiniau ac achosion brys (210 gan drigolion Caerdydd a 4 gan bobl o Fro Morgannwg)

Ar gyfer y rheiny sydd eu hangen, mae ystod o wasanaethau GIG arbenigol ar gael i oedolion ag anableddau dysgu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Darperir y gwasanaethau hyn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe drwy dimau anableddau dysgu cymunedol, Gwasanaethau Preswyl Arbenigol, Unedau Asesu a Thrin, a Thimau Cymorth Ymddygiadol.

## Timau Arbenigol Anableddau Dysgu Cymunedol

Darperir gwasanaethau GIG arbenigol i oedolion ag anableddau dysgu ac i'w teuluoedd/gofalwyr drwy dri Thîm Anableddau Dysgu Cymunedol: Dau dîm i Gaerdydd (Dwyrain a Gorllewin) ac un i Fro Morgannwg. Mae'r timau yn cynnwys gwahanol weithwyr proffesiynol y GIG, ac yn cynnig pwynt mynediad unigol i wasanaethau Anableddau Dysgu arbenigol y GIG megis Gwasanaethau Ymddygiad Arbenigol, Unedau Preswyl Arbenigol ac Unedau Derbyniadau Acíwt.

**Ym mis Hydref 2017:**

- Cafodd 980 o bobl gymorth gan ein timau cymunedol (753 yng Nghaerdydd a 227 ym Mro Morgannwg)
- O'r rheiny, 245 oedd ag anableddau dysgu ac anghenion ychwanegol (179 yng Nghaerdydd a 66 ym Mro Morgannwg)
- Y meysydd anghenion ychwanegol mwyaf cyffredin oedd: epilepsi (25%), salwch meddwl (24%), ymddygiad heriol (22%) ac anhwylderau'r sbectrwm awtistaidd (11%)

- Roedd 33 o bobl yn cael cymorth ar gyfer ymddygiad heriol (28 o Gaerdydd a 5 o Fro Morgannwg) yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Yn 2016/17 cafwyd 725 o atgyfeiriadau gan y timau cymunedol (513 ar gyfer Caerdydd a 212 ar gyfer Bro Morgannwg). Yn ystod y flwyddyn hon, rhyddhawyd 178 o oedolion o'r gwasanaeth.

## Gwasanaethau Preswyl Arbenigol

Mae Gwasanaethau Preswyl Arbenigol (GPA) yn unedau bach a arweinir gan nyrsys ac sydd ar gyfer pobl na ellir cefnogi eu hanghenion drwy ofal cymdeithasol. Mae'r unedau wedi eu cofrestru fel ysbytai a gall y bobl sydd yn yr unedau roi barn am eu triniaeth a chael cefnogaeth gan seiciatrydd a seicolegydd. Mae cyfanswm o 43 gwely wedi eu lleoli yn ddaearyddol ar draws tair ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

**Ym mis Hydref 2017:**

- Roedd mwy na dwy ran o dair (68.3%) o'r bobl mewn Gwasanaethau Preswyl Arbenigol rhwng 41 a 60 oed
- Adroddwyd bod pob un o'r 41 o gleifion, ac eithrio 3, wedi arddangos ymddygiadau heriol
- Roedd hyd eu harhosiad yn 10 mlynedd a 7 mis ar gyfartaledd

## Unedau Asesu a Thrin

Mae Unedau Asesu a Thrin yn cynnig asesiadau a thriniaethau i gleifion mewnol ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu sydd ag ymddygiadau hynod heriol neu sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth.
Mae cyfanswm o 23 o welyau wedi eu lleoli yn ddaearyddol ledled ardaloedd Byrddau Iechyd Abertawe Bro Morgannwg (7), Cwm Taf (8), a Chaerdydd a'r Fro (8)

**Ym mis Hydref 2017:**

- Ychydig yn llai na hanner o'r bobl yn yr unedau oedd rhwng 21 a 30 oed
- Roed gan bob unigolyn o leiaf ddau angen ychwanegol, gydag adroddiad am nifer fawr ohonynt gyda thri neu bedwar
- Roedd pawb ac eithrio un ag ymddygiad heriol, ac roedd 10 allan o'r 13 gydag awtistiaeth
- Roeddent yn aros yn yr unedau am 184 diwrnod ar gyfartaledd

## Cyllid Gofal Iechyd GIG Parhaus

Defnyddir Cyllid Gofal Iechyd Parhaus gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i brynu pecynnau gofal, neu leoliadau cartrefi preswyl neu nyrsio pan aseswyd bod prif angen yr unigolyn yn seiliedig ar iechyd. Gellir cael pecynnau gofal mewn unrhyw leoliad ac mae'n rhan o gontinwwm gofal a chymorth ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Cydnabyddir hefyd fod anghenion person weithiau yn galw am becyn gofal a ariennir ar y cyd fel y datrysiad mwyaf priodol. Ledled Caerdydd a'r Fro mae nifer o bobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth yn derbyn ariannu ar y cyd.

# 6 Cyllid

Mae'r tabl isod yn cynnig trosolwg o gyfanswm yr arian a wariwyd ar rai gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth yn ôl sefydliad yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18.


### Cyfanswm Gwariant ar Wasanaethau Craidd i Oedolion ag Anableddau Dysgu yn ôl Sefydliad

| Sefydliad | Gwasanaethau a Ariennir | Blwyddyn Ariannol | Cyfanswm | Gwariant Cyfartalog y person |
|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** | • Timau Cymunedol Anableddau Dysgu Arbenigol | 2017/18 | £2,295,114 | £2,341.95 |
| | • Asesu a thrin cleifion mewnol* | 2017/18 | £693,107 | ---- |
| | • Gofal preswyl arbenigol (cleifion mewnol)* | 2017/18 | £1,644,994 | ---- |
| | • Lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus a ariennir | 2017/18 | £15,805,520 | ---- |
| **Cyngor Caerdydd** | • Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 2017/18 | £36,231,444 | £30,646.00 |
| **Cyngor Bro Morgannwg** | • Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | | £11,918,152 | £26,603.00 |


* Nid yw'r ffigwr hwn wedi ei gadarnhau oherwydd y cyllidebau a ddyrennir ar hyn o bryd ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd

Gellir gweld gwybodaeth fanylach ar sut y gwariwyd yr arian hwn ar wasanaethau a gomisiynwyd o fewn pob un o'r sefydliadau yn Ffig. 1 i 3


Gyda llai o arian i fodloni pwysau demograffig, mae'n glir bod angen inni wneud pethau'n wahanol. Bydd rhaid inni fod yn fwy arloesol a chreadigol dros y pum mlynedd nesaf o ran sut rydym yn comisiynu ein gwasanaethau, defnyddio sgiliau a gwybodaeth pobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr, y trydydd sector a'r sector preifat.




**Ffig.1:** Gwariant Gwasanaethau i Oedolion ag Anableddau Dysgu Cyngor Caerdydd 2017/18




**Ffig.2:** Gwariant Gwasanaethau i Oedolion ag Anableddau Dysgu Cyngor Bro Morgannwg 2017/18




**Ffig. 3:** Gwariant Gofal Iechyd Parhaus ar gyfer Oedolion ag anableddau Dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro 2016/17

7

# Monitro Ansawdd a Pherfformiad

Ar ôl inni nodi'r heriau ariannol ledled y rhanbarth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, mae'n bwysig ein bod yn parhau i anelu at yr ansawdd uchaf y gall ein gwasanaethau ei chynnig i bobl yn y ffordd fwyaf cost effeithiol: gan sicrhau bod contractau comisiynu yn glir o ran pa wasanaethau a sut y dylid eu darparu. Dros y pum mlynedd nesaf rydym ni eisiau gweithio gyda phobl sy'n cael y gwasanaethau a'u gofalwyr, er mwyn sicrhau y cânt wasanaethau o ansawdd dda i'w cefnogi i wireddu eu canlyniadau.

Byddwn yn rhoi mesurau sicrwydd ansawdd ar waith yn unol â Safonau Iechyd a Gofal (2015), a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.



# 8 Negeseuon Allweddol

**Mae nifer o ffactorau a fydd yn llywio cyfeiriad ein strategaeth:**

## Demograffeg

Mae nifer y bobl sydd ag anableddau dysgu yn cynyddu. Mae pobl ag anableddau dysgu yn byw yn hirach a disgwylir gweld cynnydd yn nifer yr oedolion ag anghenion difrifol a chymhleth sy’n symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion dros y blynyddoedd i ddod.

## Yr hyn mae pobl wedi dweud wrthym

Nododd pobl yn glir iawn beth yw eu blaenoriaethau ac maent wedi dweud wrthym eu bod yn dymuno cymryd rhan wrth ddewis gwasanaethau a chymorth. Rydym ni wedi defnyddio yr hyn a ddywedwyd wrthym wrth osod ein blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu yng Nghaerdydd a’r Fro.

## Adnoddau ariannol

Mae’r sefyllfa ariannol sy’n wynebu’r cyhoedd yn un anodd ac nid yw’n debyg y bydd yn gwella yn y dyfodol agos. Ystyrir gwerth am arian, ansawdd a chynaliadwyedd ym mhob un o’n trefniadau comisiynu.

## Darpariaeth Gwasanaeth

Mae llawer o drigolion Caerdydd da’r Fro yn byw ar hyn o bryd mewn llety tu allan i’r sir ac yn bell o’u teuluoedd a ffrindiau. Er mwyn galluogi’r bobl hynny sydd wedi eu lleoli y tu allan i’w cartref i ddychwelyd pan fo’n briodol a chynnig dewisiadau lleol priodol i bobl wrth ystyried ble i fyw, mae angen i’r tri sefydliad wella eu seilwaith er mwyn cefnogi pobl i fyw’n lleol. Mae angen hefyd i foderneiddio ein model gwasanaeth GIG i atal arosiadau hir mewn lleoliadau ysbyty.

# 9 Gweithredu

# Sut byddwn yn cyflawni ein strategaeth?



Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a chynnig gwasanaethau seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl, byddwn yn gweithio gyda phob un o'n rhanddeiliaid i ddatblygu cynllun gweithredu manwl ar gyfer pob un o'r meysydd blaenoriaeth. Bydd y cynlluniau yn cynnwys camau gweithredu i wella cymorth drwy gydol bywydau pobl. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, mae angen inni greu gwasanaethau ar y cyd â phobl ag anableddau dysgu a'u gofalwyr, a hefyd i weithio'n agos gyda staff yn y gwasanaeth GIG ac awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau y gwneir addasiadau rhesymol fel y gall pobl ag anableddau dysgu gael gafael ar wasanaethau i'r cyhoedd cyffredinol.

Caiff ein cynlluniau gweithredol eu rhoi ar waith ar y cyd, a bydd strwythurau partneriaeth anableddau dysgu ar y cyd yn eu monitro. Bydd y Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu yn gweithredu fel grŵp cyfeirio arbenigol inni wrth ddatblygu ein cynlluniau gweithredol a'u rhoi ar waith.

Byddwn yn anelu at sicrhau yr ansawdd uchaf o ddarpariaeth am y gwerth gorau am arian i ganiatáu am ddewis o fewn yr adnoddau a ddyrennir.

# 10 Ein Blaenoriaethau - Hyrwyddo Annibyniaeth a Gwella Bywydau

**Seilir ein blaenoriaethau am y pum mlynedd nesaf ar yr hyn y mae pobl wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt.**

## Iechyd a Theimlo'n Dda:

Mae pobl wedi dweud wrthym yr hoffent fod â'r gallu i gymdeithasu â'u ffrindiau a chael hwyl. Maent hefyd wedi dweud wrthym eu bod eisiau amrywiaeth o ddulliau cymorth, o gyfeillio a chael cymorth gan gymheiriaid i gymorth i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd cymhleth.

**Y newid y dymunwn ei weld:**

- Rhagor o bobl ag anableddau iechyd yn cael archwiliadau iechyd blynyddol.
- Llai o anghydraddoldeb iechyd.
- Pobl ag anableddau dysgu yn ymgysylltu mwy ag ymddygiadau ffordd o fyw cadarnhaol megis bwyta'n iach ac ymyriadau iechyd meddwl.
- Rhagor o bobl ag anableddau dysgu yn manteisio ar gyfleoedd hamdden, cymdeithasol a diwylliannol yn eu cymunedau.
- Cefnogaeth i fwy o bobl ag anableddau dysgu i wneud a chadw ffrindiau.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**

- Rydym yn cefnogi pobl i fynd i apwyntiadau iechyd pan na allant gyrraedd yno heb gymorth.
- Rydym yn ariannu ac yn cefnogi pobl i ddefnyddio grwpiau cymdeithasol a chyfeillion a gynigir gan y trydydd sector ac rydym yn annog pobl i greu eu grwpiau eu hunain
- Rydym yn cefnogi pobl i gael cymorth a rennir â'u ffrindiau pan fo'n briodol.
- Mae Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn hwyluso grwpiau perthynas arbenigol ar gyfer y rheiny sydd angen cymorth.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Datblygu grwpiau cymdeithasol mwy amrywiol i annog pobl i wneud ffrindiau a chael cymorth gan gymheiriaid; er enghraifft 'Gig Buddies'. Datblygu'r defnydd o Daliadau Uniongyrchol i alluogi cefnogaeth a rennir ac mewn grwpiau. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Recriwtio Nyrs Cysylltiol ar gyfer Anableddau Dysgu i weithio gyda staff ar y wardiau yn Ysbyty Athrofaol Cymru i sicrhau y gallant ofalu am bobl ag anableddau dysgu yn briodol drwy wneud "addasiadau rhesymol". Bydd y nyrs cysylltiol hefyd yn sicrhau bod systemau addas arwaith i gyfathrebu â phobl/rhieni/gofalwyr a darparwyr. *(Rhagolwg ragamcanol 2019)*
- Gweithio ar y cyd i ymgorffori "rhagnodi cymdeithasol" ar draws ein system GIG – gan ddysgu o brofiad ein hawdurdodau lleol. Bydd rhagnodi cymdeithasol yn golygu y byddwn yn nodi pobl ag anableddau dysgu i gynnig cymorth llesiant nad yw'n glinigol iddynt, gan eu galluogi i fanteisio ar gyfleoedd hamdden, chwaraeon a diwylliant. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Gwella cyfranogiad ac ansawdd yr archwiliadau iechyd blynyddol a'r profion sgrinio perthnasol i iechyd a gynigir i bobl ag anableddau dysgu gan eu meddyg teulu. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*



## Gwybodaeth – Hygyrch a Hawdd ei Deall:

Mae pobl wedi dweud eu bod eisiau cael gwybod pa wasanaethau sydd ar gael a'u bod yn dymuno cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau am y cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Gallant wneud hyn ddim ond os yw'r wybodaeth yn hygyrch ac ar gael iddynt mewn ffurf y gallant ei deall.

**Y newid y dymunwn ei weld**

- Rhagor o bobl ag anableddau dysgu a'u teuluoedd/gofalwyr yn gallu defnyddio gwybodaeth o ansawdd dda, gyson a hygyrch am wasanaethau a chyfleoedd sydd ar gael iddynt.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**

- Datblygu adnodd o daflenni a llythyrau hygyrch i'r holl staff cymunedol eu defnyddio gyda phobl y maent yn gweithio gyda nhw i'w helpu i ddeall.
- Mae Cynghorau Caerdydd a'r Fro wedi prynu Dewis Cymru, adnodd ar-lein, i ddarparu gwybodaeth a all helpu pobl i feddwl am yr hyn sy'n bwysig iddynt a dysgu am gyfleusterau a gwasanaethau lleol.
- Gall Cynllunwyr Cymorth gynorthwyo unigolion i ddysgu am gyfleoedd lleol a rhoi cynnig arnynt wrth ddatblygu pecynnau gofal yn lleol.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Gweithio gyda'n Therapyddion Iaith a Lleferydd i greu gwybodaeth sydd mor hygyrch â phosibl. *(Rhagolwg ragamcanol 2019/20)*
- Gweithio gyda Dewis Cymru i ddatblygu'r wefan a fydd yn cynnig gwybodaeth hygyrch ac annog a hyrwyddo ei defnydd. *(Rhagolwg ragamcanol 2020/24)*
- Gweithio gyda'n partneriaid i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg i helpu i rannu gwybodaeth. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Defnyddio ein cydweithwyr yn y Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu i fod yn 'gyfeillion beirniadol'. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*

## Dewis a Rheoli – Ymgynghori a Chynnwys

Mae pobl wedi dweud wrthym ni eu bod yn dymuno inni eu clywed, cyfathrebu â nhw, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, cynnig dewis go iawn iddynt a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau am eu gofal a chymorth. Mae pobl wedi dweud wrthym yr hoffent gael eiriolwr ar gael wrth eu hochr ar adegau pan fydd angen cymorth iddynt wneud penderfyniadau mewn modd amserol.

**Y newid y dymunwn ei weld**

- Bydd pobl ag anableddau dysgu sydd angen cynllun gofal a chymorth bob amser yn cael eu cynnwys yn ystod ei ddatblygiad a chaiff eu canlyniadau eu cyfleu iddynt yn glir.
- Bydd mynediad i gymorth eirioli i ragor o bobl ag anableddau dysgu.
- Bydd cymorth ar gael i ragor o ofalwyr/rhieni pobl ag anableddau dysgu pan fo angen.
- Bydd rhagor o bobl ag anableddau dysgu a gofalwyr pobl ag anableddau dysgu yn cyfrannu at y gweithgareddau comisiynu, ac wrth benderfynu sy'n llywio gwasanaethau.
- Bydd mwy o bobl ag anableddau dysgu yn defnyddio taliadau uniongyrchol.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**


- Cefnogi staff i gwblhau asesiadau sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau ar y cyd ag unigolion a'u teuluoedd neu eu hanwyliaid.
- Mae Gwasanaeth Cynlluniwr Cymorth yn gweithio gydag unigolion i ddeall dymuniadau a dewisiadau wrth ddatblygu pecynnau gofal.
- Darparu Porth Eiriolaeth i alluogi pobl i gael yr eiriolaeth a'r cyngor mwyaf addas i'w hanghenion.
- Cynlluniau cymorth sy'n canolbwyntio ar y person ar waith ym mhob gwasanaeth a gomisiynir yn fewnol ac yn allanol
- Hybu'r defnydd o daliadau uniongyrchol.
- Ehangu project gofal cartref 'Eich Dewis' yn y Fro i bobl ag anableddau dysgu.
- Swyddogion gofal penodedig i gefnogi rhieni/gofalwyr pobl ag anableddau dysgu.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Siarad mwy â phobl sy'n defnyddio gwasanaethau. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Siarad mwy â gofalwyr. *(Rhagolwg rhagamcanol 2019-2024)*
- Parhau i ddatblygu ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau /seiliedig ar ganlyniadau ymhlith y staff a'r rhanddeiliaid i gyd. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wrth fonitro contractau ac mewn cyfarfodydd adolygu. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Parhau i hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol gan ystyried sut i'w defnyddio'n fwy creadigol i alluogi Cynorthwyydd Personol i gefnogi grwpiau ffrindiau/cymdeithasol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Parhau i weithio gydag asiantaethau partneriaid i ddatblygu defnydd o dechnoleg gynorthwyol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*

## Y Cymorth Iawn ar yr Amser Iawn

Yr angen i gael gwybodaeth, cyngor a phan fo angen, cymorth, ar yr adeg iawn i atal y galw am fwy o gymorth yn nes ymlaen.
Mae gofalwyr wedi dweud bod angen iddynt gael cymorth ar unwaith yn ystod adegau argyfwng yn ogystal â chyfleoedd seibiant rheolaidd.



**Y newid y dymunwn ei weld**

- Bydd llai o bobl yn disgyn rhwng y bylchau mewn gwasanaethau.
- Bydd llai o bobl yn cael eu derbyn mewn ysbytai ar welyau asesu arbenigol ar gyfer anableddau dysgu, a phan fydd hyn yn digwydd, cânt eu rhyddhau ynghynt.
- Gall rhagor o ofalwyr fanteisio ar gymorth a chyngor arbenigol ar gyfer anableddau dysgu pan fo angen arnynt.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**

- Mae timau gwaith cymdeithasol arbenigol ar waith (Tîm Dyletswydd Brys) i ymateb i angen brys 24 awr y dydd.
- Rydym yn cefnogi pobl i ddefnyddio ystod o wasanaethau seibiant.
- Cynyddu'r defnydd o seibiant Lleoliadau Oedolion a seibiant anghenion cymhleth yn y Fro
- Mae Cyngor Caerdydd wrthi'n adolygu ei wasanaethau seibiant.
- Mae sefydliadau lleol y Trydydd Sector, megis Pobl yn Gyntaf, yn cynnig ystod o grwpiau eirioli dros eich hun a chymorth gan gymheiriaid.

- Adolygu model ein gwasanaeth GIG arbenigol i sicrhau bod cymorth dwys ar gael yn y gymuned ar adegau argyfwng i atal pobl rhag cael eu derbyn yn yr ysbyty, ac i sicrhau y gall pobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda'r cymorth iawn mewn lle, cyn gynted ag y maent yn barod.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Datblygu grwpiau cymdeithasol ychwanegol i annog gweithgarwch creu ffrindiau a chymorth gan gymheiriaid. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Annog cymorth gan gymheiriaid ymhlith y gofalwyr sy'n wynebu pryderon tebyg. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau wrth fonitro contractau ac mewn cyfarfodydd adolygu. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Dechrau gweithredu ein cynlluniau i foderneiddio ein gwasanaeth GIG arbenigol ar gyfer Anableddau Dysgu, i sicrhau bod y cymorth iawn a'r driniaeth gywir ar gael, ar yr adeg sydd ei hangen i bobl. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Byddwn yn canolbwyntio ar gryfhau ein gwasanaethau cymunedol i gynorthwyo pobl ar adegau argyfwng yn well, atal pobl rhag cael eu derbyn yn yr ysbyty yn ddiangen, a gweithio i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefu eu hun. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr cartrefi gofal preswyl a nyrsio yn y rhanbarth a'u cefnogi i sicrhau bod gan eu staff y sgiliau cywir a'r wybodaeth i allu gofalu'n well am bobl ag anableddau dysgu sydd wedi cael diagnosis salwch meddwl hefyd, gan gynnwys dementia. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*

## Cyfleoedd gweithio, gwirfoddoli a dydd



Mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau cael gwahanol gyfleoedd ar eu cyfer, yn ogystal â dewis a hyblygrwydd. Mae teuluoedd a gofalwyr wedi dweud wrthym ei bod yn bwysig i rai gael adeilad pwrpasol lle gall pobl ag anableddau dysgu fynd yn ystod y dydd; yn enwedig y rheiny sydd ag anghenion iechyd a gofal ar lefel uchel. Mae pobl wedi dweud wrthym ei bod yn anodd gwybod ble i chwilio am gyfleoedd sydd ar gael.

Mae pobl wedi nodi bod gwirfoddoli wedi bod yn hynod gadarnhaol i'w hyder ac annibyniaeth a'u bod yn dymuno cael rhagor o gyfleoedd i wirfoddoli mewn amrywiaeth o feysydd. Hefyd, mae pobl wedi dweud wrthym eu bod eisiau rhagor o gymorth i fod yn 'barod i waith' a rhagor o gyfleoedd am gyflogaeth.

**Y newid y dymunwn ei weld:**

- Bydd rhagor o bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys y rheiny ag anableddau mwy difrifol, yn cyfrannu at eu cymunedau lleol.
- Bydd rhagor o bobl ag anableddau dysgu yn gwirfoddoli neu mewn cyflogaeth.
- Bydd rhagor o ddewis am weithgareddau ystyrlon ar gael i bobl ag anableddau dysgu.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**

- Rydym ni wedi datblygu gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth ac rydym ni hefyd yn comisiynu cyfleoedd eraill wedi eu lleoli mewn adeiladau.
- Ma Cyngor Caerdydd wedi ehangu ei wasanaeth dydd ar gyfer anghenion cymhleth i ddiwallu'r angen yn lleol. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cael ei ailwampio i wella'r cyfleusterau a'r amgylchedd ar gyfer y bobl sy'n ei ddefnyddio.

- Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i ddiwallu anghenion pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd corfforol cymhleth yn ei ddarpariaeth gwasanaeth dydd.
- Cyflwynodd Cyngor Caerdydd wasanaeth Cynllunio Cymorth yn ôl yn 2016 sydd hefyd wedi ei gyflwyno ym Mro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl ag anghenion cymorth uwch i nodi yr hyn sydd ei eisiau arnynt o ran gweithgareddau galwedigaethol a hamdden ac mae wedi arwain at ddefnydd uwch o wasanaethau prif ffrwd.  Rydym ni wedi gweithio i ddatblygu amrywiaeth eang o gyfleoedd i wirfoddoli ac annog pobl i ymuno â grwpiau cymunedol lleol.
- Datblygu Dewis Cymru.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**
- Datblygu'r rôl cynllunio cymorth ym Mro Morgannwg ymhellach. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Datblygu darpariaeth anghenion cymhleth ymhellach ar draws Caerdydd a'r Fro gyda phwyslais penodol ar y grŵp oedran pontio. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Gweithio gyda sefydliadau'r Trydydd Sector i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl o ran gweithgareddau dydd, gwirfoddoli a gwaith cyflogedig. *(Rhagolwg hagamcanol 2019-2024)*
- Datblygu cysylltiadau gwell gydag asiantaethau cyflogaeth a gefnogir i sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth ar gael i bobl ag anableddau dysgu. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Sicrhau bod ein contractau ar gyfer cyfleoedd dydd yn pwysleisio canlyniadau gwell ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u bod yn hyblyg er mwyn galluogi creadigrwydd ac arloesedd. Byddwn yn cynorthwyo pobl i ddod o hyd i grwpiau cymunedol gweithgareddau sydd ar gael yn lleol yn eu hardaloedd, a'u cefnogi i gymryd rhan. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Gweithio gyda'n partneriaid o'r Trydydd Sector i hwyluso pobl ag anableddau dysgu wneud ffrindiau a chynnal perthnasoedd ac i hyrwyddo cymryd risgiau cadarnhaol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*

## Y Cyfnod Pontio o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion



Mae pobl wedi dweud wrthym nad yw'r pontio rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg yn gweithio. Mae pobl yn teimlo ofn a phryder am y dyfodol ac nid ydynt yn teimlo bod cefnogaeth iddynt gan y gwasanaethau. Pan fo'r cyfnod pontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion wedi gweithio'n dda, mae'n ymddangos nad ydym yn rhannu'r arfer da hwn i sicrhau ei fod yn digwydd yn gyson. Mae pobl yn teimlo y dylai trafodaethau am eu dyfodol ddechrau yn gynharach mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid ac y dylent gymryd rhan gyflawn yn hyn.

**Y newid y dymunwn ei weld:**
- Protocol Pontio Rhanbarthol
  - Pobl ifanc a'u gofalwyr yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys a'u cefnogi yn ystod y broses bontio.
  - Pennu Gweithwyr Pontio Allweddol.
  - Gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol yn gweithio ar y cyd â'r person ifanc i greu cynlluniau canlyniadau unigol clir a phenodol.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**
- Cynyddu swyddi gwaith cymdeithasol penodol i bontio.
- Cynyddu Cynllunwyr Cymorth i alluogi cymorth i'r rheiny sy'n pontio o wasanaethau plant i oedolion.
- Datblygu protocol pontio ar y cyd ar draws y rhanbarth.
- Gweithio gyda gweithwyr addysg i gynllunio ar gyfer y ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg a gyflwynir yn 2020.
- Gweithio i ddatblygu cyfleoedd lleol gwell ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Parhau i wrando a dysgu gan yr hyn a weithiodd a'r hyn na weithiodd a defnyddio fforymau megis Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu/ Ffederasiwn Rhieni a Pobl yn Gyntaf Caerdydd a Phobl yn Gyntaf y Fro i gynorthwyo. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Gwella'r wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc a'u teuluoedd ynglŷn â'r hyn y gallant ei ddisgwyl gan y broses bontio a'r cyfleoedd lleol. *(Rhagolwg ragamcanol 2020-2021)*
- Lansio Protocol Pontio Rhanbarthol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2020)*
- Ceisio cynnal cysylltiadau â'r holl unigolion hysbys sy'n mynd drwy'r cyfnod pontio yn 16 oed. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Datblygu dulliau casglu data gwell i gynllunio ar gyfer pobl ifanc ynghynt. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Comisiynu Hyfforddiant ar oblygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2020)*
- Datblygu darpariaeth dydd ar gyfer anghenion cymhleth pobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses bontio. *(Rhagolwg ragamcanol 2020-2023)*

## Bod yn berchennog cartref:

Mae pobl wedi dweud wrthyn yr hoffent gael cefnogaeth i fyw mor annibynnol â phosibl ac i allu byw yn agos at ffrindiau a theulu.



**Y newid y dymunwn ei weld:**

- Bydd llai o bobl yn mynd i gartrefi gofal preswyl y tu allan i' w hardal.
- Caiff llai o bobl eu lleoli mewn gwelyau ysbyty am dymor hir.
- Bydd gan fwy o bobl ag anableddau dysgu ddewis a rheolaeth dros ble maent yn byw a sut maent yn cael eu cefnogi.
- Bydd rhagor o bobl ag anableddau dysgu yn defnyddio technoleg yn ddiogel i'w helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**

- Gweithio gydag adrannau tai a darparwyr tai i gynllunio ar gyfer y galw a'r angen yn y dyfodol.
- Paratoi i ail-dendro ar gyfer llety â chymorth yng Nghaerdydd a'r Fro.
- Edrych i mewn i ragor o lety craidd a chlwstwr.
- Ehangu Gwasanaeth Lleoli Oedolion yng Nghaerdydd a'r Fro.
- Datblygu llety newydd a gweithio i gau tai nad ydynt yn addas i bwrpas erbyn hyn.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Datblygu Gwasanaeth Lleoli Oedolion ymhellach i hyrwyddo trefniadau ffrindiau yn byw gyda'i gilydd. *(Rhagolwg hagamcanol 2019-2024)*
- Ehangu Gwasanaeth Lleoli Oedolion yng Nghaerdydd a'r Fro. *(Rhagolwg ragamcanol 2020-2024)*
- Gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu llety a chymorth a fydd yn galluogi pobl sy'n byw y tu allan i'r sir neu mewn ysbytai yn hirdymor i ddychwelyd i'w cymunedau pan fo'n briodol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Galluogi pobl i gael eu tenantiaeth eu hunain pan fo'n bosibl wrth iddynt symud i ffwrdd o'u teuluoedd. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*

- Annog a hyrwyddo defnydd o dechnolegau newydd i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl. *(Rhagolwg hagamcanol 2019-2024)*
- Datblygu/ailstrwythuro cyfleusterau cymunedol cam yn ôl i alluogi pobl mewn gwelyau GIG ac ysbytai annibynnol i symud ymlaen ac i atal pobl ifanc rhag  cael eu hanfon y tu allan i sir. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*

## Cydweithredu a Chyd-gynhyrchu

Mae pobl wedi dweud bod angen i weithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd a bod angen i'r holl weithwyr proffesiynol weithio'n gydweithredol gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae angen i weithwyr proffesiynol fabwysiadu dull seiliedig ar gryfderau, gan ddefnyddio gwybodaeth bersonol pobl am yr hyn y gallant ei wneud, y cryfderau sydd ganddynt er mwyn cyrraedd eu nodau eu hunain.



**Y newid y dymunwn ei weld**

- Bydd rhagor o gynlluniau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar ganlyniadau, seiliedig ar gryfderau a galluoedd yr unigolyn a chânt eu creu ar y cyd â'r person dan sylw.
- Rhagor o bobl ag anableddau dysgu yn cyfrannu yn llwyr at ddatblygu eu cynlluniau gofal a chymorth.
- Gostyngiad yn nifer y bobl sydd â mwy nag un cynllun gofal a chymorth – bydd un cynllun gan bobl pan fo hynny'n bosibl.
- Bydd mwy o gynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys nodau sydd wedi eu pennu gan yr unigolyn.

**Dyma beth rydym yn ei wneud nawr:**

- Cyflwyno'r polisi 'Eich Dewis' ym Mro Morgannwg
- Defnyddio'r Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu fel cronfa i rannu gwybodaeth i wahanol asiantaethau, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gofalwyr.
- Hyrwyddo newid yn y diwylliant ar draws y ddau Gyngor i sicrhau ein bod yn deall cryfderau pobl a'u rhwydweithiau a'n bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau a bennwyd gan bobl.
- Rydym yn gwrando ar farn dinasyddion drwy arolygon, llythyrau canmol a chwyno.

**Dyma beth byddwn yn ei wneud:**

- Bydd Cyngor Caerdydd a Chyngor y Fro yn cyflwyno hyfforddiant ymarfer ar sail cryfderau i'w staff. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2022)*
- Siarad â phobl a hynny'n fwy aml. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl mewn modd mwy cyson gan wneud defnydd gwell o'r Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Defnyddio'r Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu yn fwy rhagweithiol i drafod anghenion nawr ac yn y dyfodol. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2020)*
- Defnyddio'r Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu yn fforwm ar gyfer datblygu a monitro parhaus o'r cynlluniau a gweithredir ar gyfer yr wyth maes blaenoriaeth. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2024)*
- Ehangu 'Eich Dewis' ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn y Fro. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*
- Edrych ar y posibilrwydd i integreiddio strwythur rheoli iechyd a gofal cymdeithasol. *(Rhagolwg ragamcanol 2023-2024)*
- Cyd-leoli ein Tîm Anableddau Dysgu GIG a Gwasanaeth Cymdeithasol yng Nghaerdydd. *(Rhagolwg ragamcanol 2019-2021)*

# 11 Y Camau Nesaf

Ein tasg nesaf yw creu cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer y dyfodol ar sail yr wyth blaenoriaeth allweddol a nodwyd. Bydd y Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu yn datblygu a monitro'r cynlluniau.

## Sut byddwn yn gwybod pryd rydym ni wedi cyflawni ein blaenoriaethau?

Adroddir ar bob cynllun gweithredu yn ystod cyfarfodydd rheolaidd y Grŵp Partneriaeth Anableddau Dysgu er mwyn cadw golwg ar y cynnydd. Byddwn yn ymgynghori bob blwyddyn â phobl ag anableddau dysgu i drafod p'un a ydym ni wedi cyflawni ein nodau. Yn y pen draw, byddwn yn gwybod ein bod wedi cyflawni ein blaenoriaethau pan fydd pobl yn dweud wrthym bod eu bywydau wedi gwella.



# Atodiadau

### Atodiad 1: Dolenni i Ddeddfwriaeth, Dogfennau Canllaw a Chynlluniau Rhanbarthol wedi eu Hadolygu sy'n berthnasol

- Llywodraeth Cymru (2007) Datganiad ar bolisi ac arfer ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu
  https://gweddill.gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/disability/?skip=1&lang=cy
- Mesur Strategaethau Ar Gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010
  http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/5/pdfs/mwa_20100005_we.pdf
- Deddf Cydraddoldeb 2010
  https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance
- Fframwaith Blaenoriaethu Cymru gyfan GIG Cymru (2011)
  http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/HealthTopicLeads.nsf/85c50756737f79ac80256f2700534ea3/c997185d64441b3980257bb80049f48d/$FILE/Prioritisation%20Framework_Final%2021-12-11.pdf
- The Scottish Government (2012) Strengthening the Commitment: The Report of the UK Modernising Learning Disabilities Nursing Review
  https://www2.gov.scot/Publications/2012/04/6465/downloads
- Llywodraeth Cymru (2012) Mwy na Geiriau - Fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol
  https://gweddill.gov.wales/topics/health/publications/health/guidance/words/?skip=1&lang=cy
- Ymarfer Cymunedol Ymddygiad Heriol Cymru Gyfan (2013) Gweddnewid Gofal yng Nghymru ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu ac Ymddygiad Heriol
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (2014) Cyflawni Gofal Iechyd Darbodus yng Nghymru
  http://www.1000livesplus.wales.nhs.uk/prudent-healthcare
- Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (2014) Gweddnewid Gwasanaethau Anableddau Dysgu yng Nghymru
  https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/chwilio-ymchwil-am-ofal/transforming-learning-disability-services-in-wales
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
  https://gofalcymdeithasol.cymru/hyb/deddf-sswb
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
  http://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/
- Llywodraeth Cymru (2015) Safonau Iechyd a Gofal
  http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/24729_Health%20Standards%20Framework_2015_W.pdf
- Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016
  https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/5/pdfs/anaw_20160005_we.pdf
- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
  http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/pdfs/anaw_20160002_we.pdf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (2017) Shaping Our Future Well-being 2017-2025
  http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/10%20-%20UHB%20Shaping%20Our%20Future%20Wellbeing%20Strategy%20Final.pdf
- Deddf Iechyd Y Cyhoedd (Cymru) 2017
  http://www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/pdfs/anaw_20170002_we.pdf
- Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol
  https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018
  http://www.legislation.gov.uk/anaw/2018/2/pdfs/anaw_20180002_we.pdf
- Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro Cynllun Ardal ar gyfer Anghenion Gofal a Chymorth 2018-2023
  http://www.cvihsc.co.uk/cy/amdanon-ni/yr-hyn-a-wnawn-ni/cynllun-ardal-caerdydd-a-bro-morgannwg/
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (2017) Cynllun Tymor Canolig Integredig Caerdydd a'r Fro 2017/18
  http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/cav-imtp
- Cymru iachach; Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gorffennaf 2018)
  https://gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (2015-25) Shaping Our Future Well-being Strategy
  www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sfw-strategy-2015-2025
- Cyngor Caerdydd (2018) Cynllun Llesiant Caerdydd
  https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Asesiad-Lles-Caerdydd/Cynllun-Llesiant-Lleol-Drafft-Caerdydd/Pages/default.aspx
- Cyngor Bro Morgannwg (2018) Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2018-2023: Ein Bro –Ein Dyfodol
  https://www.valepsb.wales/cy/Our-Plan.aspx
- Llywodraeth Cymru (2018) Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
  https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-07/170714-review-interim-report-cy.pdf
- Llywodraeth Cymru (Mehefin 2018) Rhaglen Gwella Bywydau Pobl ag Anableddau Dysgu
  https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/anabledd-dysgu-rhaglen-gwella-bywydau-mehefin-2018.pdf

Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro